Astudiaethau Achos Gorllewin Cymru Iachach

Rhaglen 7: Creu Cysylltiadau i Bawb

Gweithredoedd/Straeon Caredigrwydd:
https://www.connecttokindness.wales/stories/

Prosiectau Pontio'r Cenedlaethau

Ysgol Coed Cae a Chartref Gofal Cilymaenllwyd/Tref Llanelli

Gwnaethom symud y prosiect hwn i Zoom drwy ddarparu offer digidol i'r cartref gofal a darparu hyfforddiant i'r staff. Buom yn gweithio gyda 4-5 o breswylwyr a grŵp o 4-10 disgybl o Ysgol Coed Cae yn Llanelli. Hwyluswyd y prosiect gan y storïwr Phil Okwedy a'n tîm o hwyluswyr People Speak Up. Mae'r prosiect wedi bod yn llwyddiant ysgubol. Ym mis Mawrth dyma'r unig gyswllt allanol roedd y preswylwyr yn ei gael a hefyd roedd yn ffordd o sicrhau bod y disgyblion ysgol yn cymryd rhan gan eu bod i gyd yn dilyn rhaglen ysgol ar-lein oherwydd cyfyngiadau symud rhif 1. Pan ddaeth cam 1 i ben, gwnaethom barhau â'r sesiynau, gan ddefnyddio ein tîm o bobl ifanc People Speak Up. Rydym yn cynnal sesiynau wythnosol ar Zoom gyda'n hwyluswyr mewnol a'n grŵp o bobl ifanc People Speak Up a disgyblion Ysgol Coed Cae. Mae prosiect canol mis Ionawr wedi'i ohirio oherwydd achosion o Covid.
Pobl Ifanc: 10
Pobl Hŷn: 5
Anuniongyrchol: Pobl sydd wedi gwylio'r fideo cyfryngau cymdeithasol: 285, Staff Cartref Gofal 3, Teuluoedd 5
Sesiynau Hyd yma: 19

https://youtu.be/rVnLSsh4Dco
https://youtu.be/0rCF5Yp-7dM
https://youtu.be/6TxAoHM8VyE